Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg Lefel 5 (TBA AHO) (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg Lefel 5 (TBA) ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) yn rhaglen hyblyg ac uchel ei pharch sydd wedi'i chynllunio i baratoi unigolion ar gyfer gyrfa addysgu neu hyfforddi yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer gweithwyr proffesiynol crefft galwedigaethol, y rhai sydd wedi gweithio mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau o beirianneg, manwerthu, cyllid, adeiladu, gweithgynhyrchu, teithio, gwasanaeth cyhoeddus i wallt a harddwch. Os oes gennych gymhwyster Lefel 3 yn eich crefft a phrofiad yn eich sector, ac rydych chi'n edrych i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr medrus, gallai hwn fod y cwrs i chi.

Mae'r rhaglen hon yn eich galluogi i addysgu ar draws ystod eang o leoliadau, gan gynnwys Addysg Bellach, dysgu oedolion, addysg gymunedol, ac addysg athrawon galwedigaethol. Drwy gyfuno fframweithiau damcaniaethol arloesol â phrofiad addysgu ymarferol, mae'r cwrs yn sicrhau y gallwch gymhwyso addysgeg ac arferion gorau yn hyderus mewn amgylcheddau dysgu yn y byd go iawn.

Craidd y cwrs yw modiwlau sy'n archwilio safonau addysgu, strategaethau dysgu arloesol, a dulliau addysgu cynhwysol. Mae'r elfennau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cefnogi datblygiad dysgwyr wrth hogi eich gallu i gyflwyno gwersi diddorol ac effeithiol. Mae'r strwythur rhan-amser hyblyg yn caniatáu ichi gydbwyso astudio ag ymrwymiadau eraill, gan ei gwneud yn hygyrch i'r rhai sydd â bywydau prysur.

Mae lleoliadau addysgu ymarferol yn rhan annatod o'r rhaglen, gan eich galluogi i bontio'r bwlch rhwng damcaniaeth ac ymarfer. Dan arweiniad mentoriaid arbenigol, byddwch yn mireinio eich sgiliau, yn datblygu portffolio addysgu proffesiynol, ac yn ennill profiad amhrisiadwy mewn cyd-destunau addysgol amrywiol.

Cynhelir y cwrs hwn mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Gofynion Mynediad

- Cymhwyster Lefel 3 DBS Uwch Glân yn eich crefft.
- Yn ddelfrydol Mathemateg a Saesneg Lefel 2.
- Bydd angen i ddysgwyr sicrhau lleoliad addysgu: gall y coleg eich cefnogi gyda hyn, ond ni all warantu oriau

lleoliad.

Rhagolygon Gyrfa

Mae dysgwyr sy'n cwblhau'r TBA AHO mewn sefyllfa dda ar gyfer amrywiaeth o rolau, o addysgu mewn Addysg Bellach i gyflwyno rhaglenni dysgu oedolion ac addysg alwedigaethol. Mae'r cwrs hwn yn eich cyfarparu i fodloni gofynion proffesiwn addysgu deinamig a gwerth chweil, gan eich grymuso i ysbrydoli dysgwyr a chyfrannu'n ystyrlon at eu twf personol a phroffesiynol.

Modiwlau’r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gweithdai tiwtorial ac ymarferol. Mae’n ofynnol i chi gael lleoliad ymarfer addysgu sylweddol yn y ddwy flynedd o astudio. Bydd eich addysgu yn cael ei arsylwi yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd.

Asesiad

Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy’r rhaglen. Bydd eich addysgu yn cael ei arsylwi yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Afan - 01639 648200

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

HYD Y CWRS

2 Flynedd